



# Astudiaeth achos

**Teitl yr Astudiaeth Achos** Ymgynghori ar y Gyllideb: Defnyddio Efelychydd Cyllideb (offeryn ar y we) i hwyluso ac ysgogi ymgysylltu â'r cyhoedd

**Partner Fudiad(au)** Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae graddfa'r her ariannol sy'n wynebu mudiadau cyhoeddus yng Nghymru wedi'i chofnodi'n helaeth drwy sylw diweddar yn y wasg a thrafodaethau gwleidyddol. Nid yw'r effaith 'diferu i lawr' o ran toriadau mewn cyllidebau o Lywodraeth Genedlaethol i Ganolog i Leol, erioed wedi bod mor amlwg. O ganlyniad, mae awdurdodau statudol yn wynebu her anorchfygol bron – sut i fantoli'r gyllideb yn effeithiol ar adeg pan nad yw'r galw am wasanaethau erioed wedi bod yn uwch.

Yn ystod y misoedd diwethaf, drwy gynllunio cydwybodol, manwl manwl, mae sawl cynnig i wneud arbedion effeithlonrwydd wedi'u canfod gan bob un o gyfarwyddiaethau'r Cyngor i helpu i ddiwallu'r diffyg yn y gyllideb. Serch hynny, nid yw'r adran ariannol wedi mynd ati i weithio ar ei phen ei hun. Gan roi ystyriaeth briodol i ymgysylltu â'r cyhoedd, mae swyddogion ymgynghori wedi bod â lle blaenllaw, a hynny'n briodol, yn yr agenda ariannol er mwyn hwyluso gwasanaethau a ddarperir gan ganolbwyntio ar y dinesydd neu sydd wedi'u teilwra i'r dinesydd, dull sy'n ceisio rhoi anghenion a disgwyliadau preswylwyr wrth wraidd modus operandi (ffordd o weithio) y mudiad.

Serch hynny, ni ellir cyflawni hyn ond drwy ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. Crynhoir y 'newid paradeim' hwn gan OPM, a ddywed "mae'r berthynas rhwng gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion yn newid. Rhoddir pwyslais cynyddol ar wario arian cyhoeddus cyfyngedig yn strategol ac yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion wrth ddylunio eu gwasanaethau a'u cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch cyllidebau ac asedau lleol" (OPM, 2013).

O ganlyniad, yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ceisio cynnal rhaglen syml i ymgynghori ar y gyllideb a fydd yn dylanwadu o ddifrif ar y broses benderfynu. Ymhellach, gyda golwg ar y cysyniadoli gan Anstein (1969) o lefel y grym sydd ymhlyg yn y broses ymgysylltu, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymdrechu i feithrin amgylchedd ar gyfer ymgynghori effeithiol ac ystyrlon a gweithio mewn partneriaeth â'r rheini a ymgynghorir â nhw wrth wneud hynny.

Bydd yr awdurdod, am y tro cyntaf yn ei hanes ymgynghori, yn defnyddio efelychydd cyllideb – YouChoose – i geisio barn ar y mater. Offeryn ar y we yw YouChoose a ddatblygwyd gan Fwrdeistref Redbridge Llundain ac sydd bellach ar gael, am ddim, drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol, i fudiadau eraill yn y sector cyhoeddus ei ddefnyddio. Tra mae rhaglenni trydydd parti eraill ar gael ar y farchnad, yn amrywio mewn pris o £1500 i £8000(+), mae'n dipyn o gyfosodiad anghydweddol neu'n gamenw/ocsimoron i ymgynghori â dinasyddion ar fesurau arbed costau gan ddefnyddio cyfarpar sydd â goblygiadau ariannol uchel i'r awdurdod. Yn wir, gallai beri i danseilio'r broses ymgynghori gyfan, wrth fynd yn groes i ysbryd ymgysylltu â'r cyhoedd yr un pryd.

Drwy roi cyllideb y cyngor, yn ddamcaniaethol, yn nwylo cyfranogwyr, mae'r efelychydd yn galluogi ymatebwyr i gymryd perchnogaeth dros flaenoriaethau'r Cyngor a phwysu a mesur pa wasanaethau sydd bwysicaf iddynt hwy mewn mecanwaith sy'n ddemocrataidd, yn agored ac yn effeithlon. Felly, cynigiasom ddefnyddio efelychydd cyllideb ar y we er mwyn:

- Gwella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a darparu profiad newydd, gwell, diddorol a rhyngweithiol i gyfranogwyr
- Addysgu ymatebwyr gyda golwg ar ddeall y penderfyniadau anodd, ac efallai cydymdeimlo â nhw, y mae'n rhaid eu cymryd wrth reoli cyllidebau ac ailddylunio gwasanaethau mewn hinsawdd o gyfyngder cyllidebol difrifol
- Cynyddu tryloywder
- Annog ystod eang o randdeiliaid i gyfranogi, a denu, yn enwedig, y ddemograffeg iau sy'n hanesyddol wedi bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn gweithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd gan yr awdurdod. Yn gyffredinol, mae pobl iau yn llai parod i ymateb i dulliau ymgynghori traddodiadol.

Serch hynny, er gwaethaf cyffredinolrwydd materion 'technegol' cymhleth, roedd hi'n hanfodol darparu gwybodaeth mewn fformat hygyrch a hylaw er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau o ran llythrennedd a/neu rifedd.

Ar y llaw arall, bydd yr efelychydd cyllideb yn ategu ein dulliau ymgynghori traddodiadol – arolygon a grwpiau ffocws yn bennaf – nid eu disodli. Gellid felly dweud bod yr awdurdod wedi mabwysiadu a chroesawu 'dulliau cymysg' er mwyn sicrhau dilysrwydd, drwy driongli, yng nghanfyddiadau ei ymchwil.

Yn olaf, yn ystod cam dadansoddi'r astudiaeth, byddwn yn defnyddio techneg o'r enw sgôr mynegai cyfartalog i "feintoli'r ansoddol". Gwelir cryfder y dechneg hon yn y dadansoddiad o ddata graddfa Likert (cwestiynau sy'n gofyn i ymatebwyr i ba raddau maent yn cytuno/anghytuno â datganiad penodol). Mae tuedd i roi'r canlyniadau hyn mewn dau gategori cyffredinol: % sy'n cytuno; % sy'n anghytuno. O ganlyniad, mae unrhyw wahaniaeth naturiol rhwng categorïau gwahanol yr ymatebion (e.e. cytuno'n gryf, cytuno, niwtral, anghytuno, anghytuno'n gryf) yn cael ei gollu neu ei guddio gan y dosbarthiad artiffisial hwn. I osgoi'r broblem hon, dylid pwysoli pob ymateb – hynny yw, rhoi sgôr iddynt yn amrywio o -2 (anghytuno'n gryf) i +2 (cytuno'n gryf) – a chyfrifo sgôr gymedrig.

**Manylion cyswllt** Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Richard Reynolds  
Hyfforddai Graddedig: Gwybodaeth, Ymgynghori ac  
Ymgysylltu [rcreynolds@carmarthenshire.gov.uk](mailto:rcreynolds@carmarthenshire.gov.uk) / 01267  
224692